






# Trawsnewid ysgolion: papur trafod

Mawrth 2007






INVESTOR IN PEOPLE
BUDDSODDWR MEWN POBL

1907-2007
Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

**Mae Estyn hefyd:**

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at **cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk**

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: **www.estyn.gov.uk**

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

**© Hawlfraint y Goron 2007**: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

# Cynnwys


## Cyflwyniad 2

Y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr 2

Y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd 3

Trawsnewid ysgolion 4

## Ffyrdd ymlaen 6

Dysgu ac addysgu 6

Y cwricwlwm medrau 8

Cydweithio ac anghenion yr ystod oedran 14-19 11

Y cwricwlwm gwerthoedd 13

Dwyieithrwydd 15

Bodloni anghenion y gymuned 18

Ysgolion bach 21

Dyluniad ysgolion 22

Ysgolion a thechnoleg 24

Staffio 26

Arweinyddiaeth a rheolaeth 30

## Casgliad 34

# Cyflwyniad

1 Nody papur trafod hwn yw ennyn pob un o'r rheiny sydd â rhan mewn gwella addysg yng Nghymru. Mae'n amlinellu'r sefyllfa gyfredol, pam mae angen i ni newid a llawer o'r prif heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaen. Mae'n adeiladu ar syniadau ynghylch trawsnewid ysgolion a amlinellwyd yng nghyhoeddiadau Estyn dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn 'Ysgolion Ardderchog: Gweledigaeth i ysgolion yng Nghymru yn ystod yr 21ain ganrif'.

## Y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr

2 Mae ysgolion yng Nghymru wedi cyflawni llawer dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae ansawdd yr addysg y maent yn ei darparu wedi gwella a'r safonau wedi codi. Rydym wedi gweld cyflwyniad y Cwricwlwm Cenedlaethol, datblygiad y Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU), y twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ystod fwy o wasanaethau cymorth ieuenctid[1]. Oherwydd y rhain a ffactorau eraill, mae llawer mwy o ddysgwyr yn elwa nawr ar addysg sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig ac mae ganddynt ragolygon gwell o ganlyniad. Mae dysgwyr wedi ennill ystod ehangach o fedrau ac mae cyfrannau cynyddol wedi cyflawni safonau da mewn arholiadau cyhoeddus. Dros y cyfnod hwn, mae llai a llai o ddisgyblion wedi gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau.

3 Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae llawer o heriau yn wynebu ein hysgolion. Ar adeg pan fo cyfleoedd cyfyngedig iawn o ran swyddi i weithwyr di-grefft, nid oes gan ryw 3% o bobl ifanc yng Nghymru unrhyw gymhwyster cydnabyddedig o hyd pan fyddant yn gadael addysg amser llawn ac mae'r gyfran hon yn cynyddu i ryw 5% mewn rhai awdurdodau lleol. Dros gyfnod o bron i ddegawd, mae nifer y disgyblion sy'n ennill pum gradd A* - G mewn TGAU wedi cynyddu o ryw bedwar pwynt canran yn unig o 82% i 86% yn 2006. Mae'r dewisiadau ar gyfer pobl ifanc sydd ag ychydig iawn o gymwysterau, os o gwbl, wedi'u cyfyngu yn ddifrifol pan fyddant yn gadael yr ysgol.

4 Mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn ystod pob cyfnod o'u haddysg. Yng Nghymru, mae bechgyn yn ennill llai o gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfwerth nag unman arall yn y Deyrnas Unedig (DU)[2]. At ei gilydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yng Nghymru (a Lloegr), mae'r bwlch rhwng yr hyn y mae merched a bechgyn yn ei gyflawni yn ehangu. Erbyn iddynt fod yn 14 oed, nid yw lleiafrif sylweddol iawn o fechgyn yn cadw i fyny â llawer o'r gwaith yn yr ysgol ac maent yn teimlo rhwystredigaeth a methiant yn gynyddol.

5 Mae anghydraddoldeb sylweddol o hyd hefyd mewn cyflawniad a chyrhaeddiad rhwng ardaloedd breintiedig ac

[1] Ymestyn hawliau: Cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru: Cyfarwyddyd a Chanllawiau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)

[2] The Well-being of Children in Wales (Prifysgol Caerefrog ar ran Achub y Plant, 2005)

ardaloedd difreintiedig. Nid yw pob grŵp o ddisgyblion yn cael yr un cyfle i ddysgu a gwneud cystal yn eu haddysg ag eraill. Mae'r cyswllt rhwng cyrhaeddiad isel ac anfantais economaidd a chymdeithasol, yn enwedig i ddisgyblion hŷn, wedi hen ymsefydlu.

6 Mae dangosyddion ffordd o fyw ar gyfer plant yng Nghymru mewn safle isel o'u cymharu â gwledydd eraill.[3] Cydnabyddir bod y bylchau cyflawniad yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol, rhanbarth economaidd ac ethnigrwydd, yn peri gofid. Mae angen i'r rhai sy'n cyflawni isaf gyflawni llawer mwy nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Canfu'r tasglu Cau'r Bwlch fod[4]:

**"…roedd cyrhaeddiad addysgol isel, medrau sylfaenol gwael a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyflogaeth yn aml wedi cyfuno i greu sbiral o fethiant a hunan-barch isel i deuluoedd a chymunedau dros sawl cenhedlaeth…"**

7 Ar hyn o bryd, mae gormod o blant ifanc nad ydynt yn barod i ddechrau eu bywyd ysgol. Erbyn i blant gyrraedd tair oed, gall gwahaniaethau mawr fodoli eisoes yn eu dysgu a'u datblygiad. Yn wir, gallai gymryd cyfnod cyfan plentyndod a'r glasoed i gydraddoli'r gwahaniaethau hyn y mae gan fedrau cymdeithasol a chyfathrebu rôl fawr ynddynt.

8 Effaith yr anghydraddoldebau hyn yw bod cyfran uwch o oedolion sydd â sylfaen wybodaeth a sylfaen medrau gymharol isel yng Nghymru, o'i gymharu â llawer o wledydd Ewropeaidd cyfagos. Ceir tystiolaeth bod tua hanner miliwn o oedolion yng Nghymru yn cael anawsterau go iawn gyda darllen, ysgrifennu a chyda mathemateg sylfaenol. Mae ymchwil dros yr ugain mlynedd diwethaf wedi dangos y gall medrau sylfaenol gwael a chyflawniad addysgol isel ei gwneud yn anodd i unigolion ddod o hyd i swydd, cymryd rhan lawn a gweithredol yn y gymdeithas ac osgoi trosedd[5].



## Y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd

9 Yr her sy'n wynebu Cymru yw paratoi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn fel bod ganddynt y medrau sydd eu hangen mewn byd cystadleuol sy'n prysur newid. Mae cymdeithas yn yr 21ain ganrif mewn tirwedd dechnolegol a chymdeithasol gymhleth sy'n symud yn gyflym. Mae mynediad at y rhyngrwyd, ynghyd â systemau telathrebu gwell a theithio fforddiadwy yn ehangu ein barn o'r byd yn barhaus.

[3] The Well-being of Children in Wales (Prifysgol Caerefrog ar ran Achub y Plant, 2005)

[4] Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion (Dogfen Wybodaeth AHA, Rhif: 029-02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002)

[5] Sgiliau Sylfaenol a Chyfranogiad Gwleidyddol a Chymunedol (Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, 2002)

Fel gwlad, mae Cymru, fel gweddill y DU, yn wynebu pwysau cystadleuol, economaidd o Ewrop ac o economïau sy'n tyfu fel Brasil, Rwsia, India a Tsieina.

10 Bron ym mhob maes gwaith a hamdden, gwelwyd newidiadau sylweddol mewn arferion traddodiadol. Bellach, ceir ffyrdd o fyw mwy hyblyg o lawer ac arferion gweithio gwahanol o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl hyd yn oed. Mae pobl yn disgwyl gwasanaethau a gwybodaeth sydd ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae ymchwil diweddar i batrymau cyflogaeth yn awgrymu, erbyn i'n plant oedran ysgol gynradd orffen yn yr ysgol, y bydd tua hanner ohonynt yn cael eu cyflogi mewn swyddi nad ydynt eto wedi cael eu creu. Ni fydd yn anghyffredin i blant sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, brofi tua 19 o newidiadau ar gyfartaledd mewn cyflogaeth yn ystod eu bywydau gwaith fel oedolion.

11 Mae galw cynyddol am weithwyr medrus, hyblyg, sydd â'r gallu a'r ddawn i hyfforddi ac ail hyfforddi i ymateb i alw economaidd newidiol. Ledled Cymru, mae hyd at un o bob pum cyflogwr yn profi prinder o ran medrau[6]. O ystyried y gostyngiad amcan yng nghyfran y boblogaeth sydd o oedran gwaith, disgwylir i'r prinder hwn waethygu. Er mwyn cystadlu yn economi fyd-eang y dyfodol, rhaid i'n system addysg a hyfforddiant berfformio yn dda yn erbyn cymaryddion rhyngwladol. I sicrhau manteision economaidd, mae angen i fwy o'r boblogaeth ifanc a'r boblogaeth sy'n oedolion ddatblygu medrau sy'n werthfawr yn economaidd ar lefelau uwch na'r hyn a gyflawnir ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu sicrhau cymhwysedd neu arbenigedd mewn medrau generig, trosglwyddadwy mewn llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ogystal ag ennill medrau galwedigaethol penodol, technegol ym meysydd twf yr economi.

12 Fodd bynnag, er bod mwy o bobl ifanc wedi cyflawni cymhwysedd achrededig ar lefel a oedd gynt yn cael ei gyflawni gan leiafrif o ddisgyblion yn unig, mae llawer o bobl ifanc yn dal i dynnu'n ôl o addysg neu hyfforddiant. Nid yw tua un o bob pum person 19 i 24 oed a thua un o bob wyth person 16 i 18 oed mewn addysg, na hyfforddiant, nac mewn swydd.

## Trawsnewid ysgolion

13 Ym mhob gwasanaeth cyhoeddus, mae pwyslais hyd yn oed yn gryfach bellach nag yn y gorffennol ar fodloni anghenion unigol a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r dinesydd. Mae'r materion bras sy'n deillio o weithio amlasiantaethol, cyflwyno gwasanaethau ar y cyd a safonau gwybodaeth yn y gwasanaeth cyhoeddus ehangach hefyd yn berthnasol i ysgolion. Er mwyn bodloni anghenion dysgu disgyblion, rhaid i newidiadau fod yn seiliedig ar syniadau o'r hyn y dylai ysgolion fod ar eu gorau. Mae ymgynghori mwy â disgyblion ynghylch eu hanghenion, a galluogi

[6] Arolwg Sgiliau Sector Sgiliau Dyfodol Cymru (2006)

disgyblion i gymryd rhan mwy mewn gwneud penderfyniadau, yn agweddau hanfodol ar y ffocws cynyddol hwn ar y cwsmer.

**14** Er bod safonau wedi codi dros y blynyddoedd, ni fydd dim ond bod yn well nag oeddem o'r blaen yn ddigon i helpu pob person ifanc i ddod yn effeithiol mewn Ewrop a byd ehangach sy'n fwyfwy agored. Bydd angen i ni gynnal y cyflymdra â'r pethau gorau drwy'r byd. Mae heriau mawr wrth wneud ysgolion yn addas at eu diben ym mhob ystyr. Ni fydd addasu model addysgol sy'n gynnyrch o'r 19eg ganrif yn ddigon i fodloni'r heriau hyn. Rhaid trawsnewid ysgolion, er mwyn iddynt allu bod yn fwy arloesol ac yn gallu ymateb yn well i ofynion yr 21 ain ganrif.

**15** Yn 'Ysgolion Ardderchog: Gweledigaeth i ysgolion yn yr 21ain ganrif', dadl Estyn oedd bod angen i ni 'dorri'r mowld' er mwyn symud ysgolion yn eu blaen[7]. Mae ysgolion, AALlau a llunwyr polisi wedi cydnabod bod angen newid, yn ogystal â sicrhau rhai gwelliannau wrth ddefnyddio ysgolion. Fodd bynnag, ychydig o newid a fu i nodweddion a ymddangosodd flynyddoedd lawer yn ôl am resymau nad ydynt yn berthnasol mwyach.

Mae nodweddion y mae angen eu hadolygu yn ehangach yn cynnwys:

- oriau agor ysgolion am rannau cyfyngedig o'r diwrnod a'r flwyddyn;
- sylfaen anhyblyg â ffocws pwnc yn strwythur a threfniadaeth y cwricwlwm;
- strwythuro amser gwersi;
- amserlen ysgolion uwchradd, sy'n golygu bod angen newid pwnc ac ystafell ddosbarth yn aml;
- pontio aflonyddgar o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, sy'n gysylltiedig ag oedran yn hytrach na chyfnod dysgu;
- y patrwm tri thymor, sy'n dechrau yn yr hydref, nad yw'n cyfateb naill ai i'r calendr na'r flwyddyn ariannol; a'r
- cyfnod gwyliau hir yn yr haf, sy'n gallu effeithio ar y momentwm yn nysgu disgyblion ac sy'n aml yn creu problemau i rieni sy'n gweithio mewn amgylchedd gwahanol iawn i'r calendr amaethyddol y mae trefniadaeth bresennol y flwyddyn ysgol yn seiliedig arno.

**16** Bydd angen i ddarparwyr addysg a hyfforddiant gwestiynu'r cysyniad traddodiadol o'r 'ysgol'. Er enghraifft, rydym yn gweld mwy a mwy o ddarparwyr addysg blynyddoedd cynnar yn cynnal ystod eang o asiantaethau ar un safle. Bydd angen i ysgolion sy'n darparu ar gyfer yr ystod oedran 14-19 hefyd gydweithredu fwyfwy ag ysgolion, colegau, sefydliadau hyfforddiant a lleoliadau gwaith eraill yn yr un ardal i sicrhau bod dewisiadau opsiwn ehangach ar gael i bobl ifanc.

**17** Bydd yn rhaid i fuddiannau sefydliadol cul pawb sy'n gysylltiedig gael eu rhoi o'r neilltu os yw dull cydweithredol a strategol dilys ar gyfer llwybrau dysgu hyblyg am gael ei adeiladu a ffynnu. Bydd angen i arweinwyr a rheolwyr gael y weledigaeth, yr egni, y medrau a'r gallu i ragweld ac ymateb i anghenion sy'n prysur newid a bod yn llai amddiffynnol o'u rolau a'u statws cyfredol.

[7] Ysgolion Ardderchog: Gweledigaeth i ysgolion yn yr 21ain ganrif (Estyn, 2002)

# Ffyrdd ymlaen

18 Mae gan broses ansawdd uchel o gyflwyno addysg y gallu i drawsnewid Cymru a'i ffyniant yn y dyfodol. Mae heriau mawr wrth gwrs wrth drawsnewid ysgolion fel eu bod yn cyflawni'r gorau ar gyfer pobl ifanc. Yn yr adran hon o'r papur trafod, rydym yn amlinellu rhai o'r heriau allweddol a nodi arferion da sy'n cynnig ffyrdd ymlaen.

## Dysgu ac addysgu

19 Un o'r heriau anoddaf y mae ysgolion yng Nghymru yn ei hwynebu yw gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn ymgysylltu â'r broses ddysgu. I wella'r safonau a gyflawnir gan bob dysgwr, mae angen i ysgolion drawsnewid y ffordd y maent yn gweithio fel bod dysgu wedi'i deilwra yn well yn ôl anghenion pob unigolyn.



Bydd gwella'r ffyrdd y mae dysgu ac addysgu yn bodloni anghenion unigol yn helpu mwy o ddisgyblion i wireddu eu llawn botensial. Mae angen i ddisgyblion ddatblygu medrau sylfaenol ac allweddol a fydd yn eu helpu i ddatblygu eu hunan-barch a chyflawni cystal ag y gallant. Mae angen i ddisgyblion ddysgu medrau a fydd yn eu galluogi i baratoi yn hyderus ar gyfer y dyfodol a chyfrannu at yr economi leol a chenedlaethol, trwy gyflogaeth ac entrepreneuriaeth. Mae angen i ddisgyblion hefyd ddatblygu'r medrau personol a rhyngbersonol sy'n hanfodol i fyw mewn cymdeithas fwy cytûn, a'i chynnal.

20 Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod disgyblion yn cyflawni mwy ac fel arfer yn deall y gwaith yn well, pan fydd athrawon yn gosod tasgau lle mae angen i ddisgyblion ddatrys problemau a gweithio gydag eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, mae disgyblion hefyd yn deall sut mae angen iddynt wella a beth mae angen iddynt ei ddysgu nesaf. Ar hyn o bryd, nid oes digon o wersi yn cynnwys y nodweddion hyn yn rheolaidd.

21 Mae pobl ifanc yn dweud wrthym mai'r dysgu y maent yn ei fwynhau fwyaf yw dysgu cyffrous, heriol, mentrus a chreadigol. Fodd bynnag, nid yw'r dulliau hyn o ddysgu yn ddigon cyffredin, naill ai fel arfer sefydledig gan bob athro mewn ysgolion unigol, nac ar draws pob ysgol a sector.

22 Mae ymchwil addysgol hefyd yn rhoi mwy a mwy o ddealltwriaeth i ni o'r amodau gorau ar gyfer dysgu, a allu helpu i wella ein hysgolion. Mae tystiolaeth glir fod disgyblion yn elwa ar raglenni sy'n eu haddysgu sut i feddwl, fel 'Dewch i Feddwl' ac 'Athroniaeth ar gyfer Dysgu'[8].

23 Mae mentrau diweddar mewn rhai ysgolion wedi bod o fantais i ddisgyblion trwy eu helpu i ddysgu am y broses ddysgu yn ogystal â dysgu am bwnc. Mewn ysgolion o'r fath, bu gwelliant nodedig yn agweddau disgyblion at ddysgu, eu hymgysylltiad a'u cymhelliant. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon wedi gwella eu dealltwriaeth o ddysgu disgyblion, ac yn gallu cyfateb tasgau yn well i fodloni anghenion unigol disgyblion.

## Ffyrdd ymlaen: Dysgu ac addysgu

**I wella dysgu ac addysgu, bydd angen i ysgolion y dyfodol adeiladu ar arfer dda:**

- ➜ yn y ffordd y caiff disgyblion eu herio i ddatblygu eu dealltwriaeth trwy dasgau cyffrous, creadigol ac ymarferol sy'n eu galluogi i ddatrys pethau drostynt eu hunain;
- ➜ mewn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr weithio gyda'i gilydd yn bwrpasol mewn timau, y tu mewn neu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth a defnyddio ystod eang o fedrau;
- ➜ yn y modd y mae athrawon yn esbonio'r broses ddysgu i ddisgyblion ac yn defnyddio prosesau asesu gyda phwyslais llawer cryfach ar asesu ar gyfer dysgu;
- ➜ yn yr ystod dda o ddulliau addysgu a ddefnyddir sy'n creu gwahanol gyfleoedd i ddisgyblion ddeall a defnyddio gwybodaeth, gan gynnwys deunyddiau gweledol a TGCh; ac
- ➜ yn defnyddio'r ystod lawn o arddulliau dysgu ac addysgu gweledol, clybodol a chinesthetig.

[8] Newidiadau yn y Rhaglen Addysgu a Dysgu a hyrwyddir gan Raglen Anelu at Ragoriaeth (Estyn, 2006)

## Y cwricwlwm medrau

**24** Mae'r sylfaen wybodaeth yn ein cymdeithas yn ehangu ar gyfradd ddigynsail. Hyd yn oed pe bai addysgu heddiw yn ymwneud yn unig â throsglwyddo corff o wybodaeth i ddysgwyr, ni fyddai'n bosibl cynnal ei chyfradd ehangu. Rhaid i ysgolion heddiw alluogi pobl ifanc i 'ddysgu sut i ddysgu' fel y gallant fanteisio ar wybodaeth newydd a gwahanol ffyrdd o ddysgu trwy gydol eu bywydau. Yn ein hysgolion mwyaf effeithiol, mae ffocws eisoes ar ddatblygu medrau dysgu a meddwl disgyblion ochr yn ochr â gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth pwnc.

**25** Mae pob plentyn yn dechrau'r ysgol gyda chyfres unigryw o brofiadau a gawsant gartref ac yn y gymuned. Nid yw pob plentyn sy'n dechrau'r ysgol i gyd yn dechrau ar fan cychwyn cyffredin ac efallai na fydd ganddynt yr un manteision ag eraill o ran cymorth teuluol ac economaidd. Mae profiadau cynnar yn darparu'r sylfaen ar gyfer datblygiad addysgol a chymdeithasol plant yn y dyfodol. Mae dulliau newydd ar gyfer addysg plant ifanc iawn yn cael eu cyflwyno yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng 3-7 oed. Yn y cyfnod hwn, mae'r pwyslais ar ddysgu trwy brofiad o weithgareddau strwythuredig sy'n canolbwyntio ar y disgybl unigol a'u cyfnod datblygu. Mae'r math hwn o ddull yn cynnig llawer o fanteision ond hefyd yn cyflwyno heriau sylweddol o ran sicrhau'r adeiladau cywir, cynllunio cwricwlwm newydd a hyfforddi staff priodol i weithredu'r rhaglen. Mae cael y cydbwysedd cywir rhwng gweithgareddau sydd wedi'u cyfeirio at oedolion a'r rheiny a ddewisir gan y dysgwyr yn anodd i ymarferwyr, yn enwedig y rheiny yn y sector na chynhelir.

**26** Mae dysgwyr ifanc a fydd wedi cael addysg dda yn y Cyfnod Sylfaen yn debygol o adael y cyfnod hwnnw gyda set wahanol ac uwch o ddyheadau a disgwyliadau nag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae angen cwricwlwm ar gyfer plant 7-14 oed a fydd yn galluogi disgyblion i adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu yn ystod eu Cyfnod Sylfaen.

**27** O'r adeg pan fydd plentyn yn 7 oed, mae'r cwricwlwm cynradd yn canolbwyntio ar ddatblygiad medrau disgyblion trwy'r pynciau craidd Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, tra bod ystod o bynciau eraill yn aml yn cael eu haddysgu mewn ffordd integredig. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio yn benodol ar barhad a dilyniant mewn meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer dysgwyr ac mae'n cynnwys astudiaeth o'r cynnwys a nodwyd yng ngorchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cydbwysedd rhwng ymdrin â chynnwys a chaffael medrau yn gwyro gormod tuag at gynnwys ar hyn o bryd a dim digon tuag at gaffael medrau generig ar draws y cwricwlwm. Er bod medrau allweddol llythrennedd

a rhifedd wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mhrofiad pob dysgwr ar draws y rhan fwyaf o agweddau ar eu dysgu, nid yw'r medrau generig dysgu i feddwl a dysgu, chwilio, dadansoddi a chyfosod gwybodaeth, gweithio gydag eraill a datrys problemau yn greadigol, yn ddigon eglur mewn prosiectau trawsgwricwlaidd.

**28** Er hynny, mae'r cwricwlwm cynradd yn llwyddo yn well na'r cwricwlwm ysgolion uwchradd yn hyn o beth. Y brif broblem yng nghyfnod allweddol 3 (ar gyfer plant 11-14 oed) yw bod cyflwyno'r cwricwlwm wedi'i rannu yn ddarnau o astudiaeth ar wahân sy'n seiliedig ar bwnc, i gyd yn cael eu haddysgu gan wahanol athrawon sy'n cael amser cyswllt cyfyngedig yn unig â dosbarthiadau ac o'r herwydd, nid ydynt yn dod i adnabod eu disgyblion a'u hanghenion dysgu cystal.

**29** Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw athrawon bob amser yn gosod gwaith ar lefel a fydd yn helpu pob disgybl i gael mynediad at gynnwys gwersi. Mae lefelau llythrennedd lleiafrif sylweddol o ddisgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol uwchradd yn ei gwneud yn anodd iddynt ymgysylltu â'r iaith a chynnwys y gwersi o'r herwydd. Mae hon yn broblem benodol i fechgyn. Yn ogystal, nid yw llawer o athrawon uwchradd yn ddigon ymwybodol o'r hyn y mae disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud pan fyddant yn cyrraedd ysgolion uwchradd ar ddechrau Blwyddyn 7 ac maent yn ailadrodd gwaith y mae disgyblion wedi'i wneud o'r blaen neu'n gwneud gwaith ar lefel amhriodol. Gall hyn arwain at ddiflastod.



**30** Mae llwyddiant parhaus disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn dibynnu ar gynllunio da ar gyfer parhad a dilyniant yn eu dysgu rhwng cyfnodau allweddol. Gall methu galluogi disgyblion i wneud cynnydd addas wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd arwain at dangyflawni, camymddwyn a phresenoldeb gwael. Mae'r methiant i ymgysylltu â disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn amlach na pheidio hefyd yn golygu eu bod yn cael eu dadrithio yn ddifrifol, ac yn aml, dim ond yn ddiweddarach yn eu bywydau y byddant yn ail ymgysylltu, os o gwbl. Er bod cyfraddau cyfranogiad ar gyfer dysgwyr dros 25 oed yn eithaf iach, mae cyfraddau cyfranogiad ar gyfer pobl 16-19 oed yn rhy isel. Nid ydym felly yn gwneud hanner digon i fodloni anghenion dysgwyr wrth iddynt symud y tu hwnt i'r cyfnod cynradd er mwyn eu cadw trwy gydol eu haddysg ysgol uwchradd nes eu bod yn 19 oed.

**31** Lle mae trefniadau trosglwyddo mewn ysgolion uwchradd yn effeithiol, mae'r addysgu a'r dysgu yn adeiladu ar arfer dda ysgolion cynradd. Mae'r addysgu yn yr ysgolion hyn wedi cael ei adfywio trwy roi sylw i'r modd y mae disgyblion yn dysgu. Mae'r dull hwn wedi ysgogi gwelliannau sylweddol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Mae athrawon wedi dysgu mwy am y broses ddysgu ac maent yn cynllunio gweithgareddau dysgu mwy diddorol ac amrywiol ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn fel arfer yn rhan o ddull ysgol gyfan cyson. Nifer fach o ysgolion yn unig sydd wedi hyfforddi'r holl staff yn y dulliau hyn.



## Ffyrdd ymlaen: Medrau

**I wella medrau disgyblion, bydd angen i ysgolion y dyfodol:**

- ➜ wella parhad mewn dysgu a chymhwyso medrau wrth i ddisgyblion symud rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3;
- ➜ cyflwyno ffocws ar fedrau fel rhan o ddull ysgol gyfan sy'n cynnwys pob athro mewn cynllunio ar y cyd a chynllunio cyfannol o ran cwricwla cyfnod allweddol 2 a 3;
- ➜ datblygu medrau meddwl a dysgu disgyblion a'u gwneud yn ganolog i gynllunio pob gwers;
- ➜ chwilio am ffyrdd o gryfhau medrau casglu, dadansoddi a chyfosod gwybodaeth ar draws y cwricwlwm;
- ➜ gwneud mwy i helpu disgyblion sydd fwyaf mewn perygl o beidio â gwneud cynnydd, yn enwedig bechgyn a'r rheiny sydd â medrau sylfaenol gwael; a
- ➜ sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau allweddol yn barhaus trwy:
  - fynd i'r afael â gwendidau ym medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh disgyblion;
  - defnyddio meini prawf asesu yn fwy effeithiol mewn gwersi ac mewn adborth llafar ac ysgrifenedig fel bod disgyblion yn gwybod pa mor dda maent yn gwneud a'r hyn y dylent ei wneud i wella'u gwaith; a
  - monitro cynnydd disgyblion wrth ddatblygu eu medrau allweddol dros gyfnod.

## Cydweithio ac anghenion yr ystod oedran 14-19

32 Mae cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol a meysydd llafur TGAU wedi codi disgwyliadau ac wedi gwneud y cwricwlwm yn fwy cyson a hygyrch ar gyfer cenedlaethau o ddisgyblion. Mae canlyniadau arholiadau wedi gwella o ganlyniad, ac erbyn hyn mae dros hanner y dysgwyr yn ennill graddau da mewn pump TGAU neu fwy. Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwella wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn yr ystod oedran 14-19 wedi ymgysylltu'n llawn â'r cwricwlwm prif ffrwd a gynigir. Er bod llawer o ysgolion wedi cyflwyno trefniadau amgen i wneud dysgu disgyblion yn fwy perthnasol iddynt, nid yw'r cwricwlwm wedi gwneud digon i gymell a bodloni anghenion nifer sylweddol o ddysgwyr yn yr ystod oedran 14-19. Yn benodol, ceir grwpiau o ddisgyblion o'r oed hwn nad ydynt yn aml yn gwneud cystal ag y dylent, gan gynnwys llawer o fechgyn, y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion dawnus a thalentog, y rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a grwpiau sy'n agored i niwed, fel plant y gofelir amdanynt.

33 Mae rhai pobl ifanc hefyd yn amgyffred bod eu dysgu yn rhy gul. Maent yn dweud eu bod arnynt eisiau datblygu ystod ehangach o fedrau a gwneud gwaith mwy galwedigaethol ac ennill medrau y maent o'r farn y byddant yn eu helpu i gael cyflogaeth neu brentisiaethau. Yn ddiamau, i rai disgyblion o'r oed hwn, nid yw'r ysgol yn bleserus nac yn cael ei hystyried yn berthnasol i'w hanghenion canfyddedig. O ganlyniad, gallant fod wedi'u dadrithio, yn aflonyddgar neu dynnu'n ôl o addysg.

34 Mae rhwystrau artiffisial sy'n arwain at ddiffyg cydraddoldeb o ran parch rhwng y gwahanol ddewisiadau y gall disgyblion eu gwneud yng nghyfnod allweddol 4 ac yn ddiweddarach. Mae cael Cwricwlwm Cenedlaethol penodedig wedi atgyfnerthu barn sydd eisoes yn gyffredin mewn cymdeithas bod mwy o statws i fathau penodol o ddysgu sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth na dysgu sy'n digwydd mewn lleoliad gwaith. Mae'r farn hon yn cyfyngu cyfleoedd i bobl ifanc wneud dewisiadau mwy cytbwys i ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau mewn ystod ehangach o gyd-destunau ymarferol, y gallai rhai ohonynt fod y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ceir tystiolaeth sylweddol bod llawer o ddysgwyr, yn enwedig bechgyn, yn dod yn fwy cadarnhaol am eu gwaith, pan fyddant yn cael cynnig y mathau hyn o ddewisiadau.

35 Mae llawer o ysgolion yn dechrau cynnig mwy o lwybrau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr 14-19, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn partneriaeth ag eraill. Fodd bynnag, nid oes digon o gymwysterau galwedigaethol ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 ar lefelau sylfaen a chanolradd (lefelau 1 a 2) i ddarparu ar gyfer y dysgwyr sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o addysg a hyfforddiant. Mae gormod o bobl ifanc ar hyn o bryd yn dewis llwybrau addysg a hyfforddiant nad

ydynt yn gywir ar eu cyfer, tra bod eraill yn tynnu'n ôl. Mae'n bwysig bod digon o gyrsiau galwedigaethol addas sy'n arwain at gymwysterau ar lefelau amrywiol, fel bod dysgwyr yn cael mwy o ddewisiadau priodol.

**36** Mae menter Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llwybrau Dysgu 14-19, wedi'i bwriadu I fynd i'r afael â'r materion hyn a galluogi disgyblion i ddewis llwybrau mwy amrywiol a chyfuno astudiaeth bwnc alwedigaethol a chyffredinol gyda phrofiad cymunedol a phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith. Dylai mwy o ddewis o gymwysterau a chredydau alluogi pobl ifanc i drafod cyflymdra a chyfeiriad eu dysgu yn unigol. I rai pobl ifanc, gallai dewis ehangach olygu bod dysgu yn digwydd mewn un neu fwy o ystod o leoliadau, gan gynnwys ysgol, coleg addysg bellach neu gwmni hyfforddi.

**37** Mae goblygiadau'r agenda Llwybrau Dysgu 14-19 yn bell gyrhaeddol i ysgolion. Bydd datblygu dewisiadau opsiwn a llwybrau hyblyg ar gyfer pobl 14-19 oed yn golygu na fydd llawer o ddysgwyr yn astudio mewn un sefydliad mwyach. Yn hytrach, gallai dysgwyr astudio mewn sawl ysgol, coleg a lleoliad gwaith gydag un sefydliad yn ymgymryd â rôl y 'prif leoliad dysgu'[9]. Dylai'r dull hwn roi llawer mwy o hyblygrwydd a dewis i ddysgwyr ynglŷn â beth a ble maent yn astudio a gallai hefyd gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer e-ddysgu.

**38** Bydd angen i ddarparwyr rannu gwybodaeth am y cwrs a gwybodaeth asesu, gan sicrhau eu bod yn darparu profiad dysgu cydlynus ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan, gan wneud yn siŵr mai lles y dysgwyr sydd wrth wraidd y penderfyniadau a wnânt bob tro. I helpu pobl ifanc i gael y budd mwyaf o'r dewis a'r cyfle hwn, bydd angen amrywiaeth ehangach o athrawon, hyfforddwyr, hyfforddwyr dysgu, mentoriaid a staff gwasanaeth cymorth ieuenctid eraill nag ar hyn o bryd. Bydd angen i ysgolion weithio'n agosach gyda gwasanaethau ieuenctid a gyrfa i gydlynu gwaith ar gyfer dysgwyr.

**39** Bydd angen gwneud newidiadau sylfaenol i'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, a bydd angen i ysgolion, colegau, awdurdodau addysg lleol ac eraill fod yn llawer mwy hyblyg. Bydd llwyddiant yn dibynnu'n bennaf ar barodrwydd darparwyr i gydweithio yn fwy effeithiol nag y maent ar hyn o bryd.

[9] Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau II (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)

## Ffyrdd ymlaen: Cydweithio

**I gydweithio yn effeithiol, bydd angen i ysgolion y dyfodol a'u prif bartneriaid:**

- ➜ sefydlu gweledigaeth a chyfeiriad cyffredin;
- ➜ meithrin ethos o ymddiriedaeth a pharch pobl yn ei gilydd;
- ➜ adeiladu ar bartneriaethau sydd eisoes yn bod ac ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol;
- ➜ cynyddu'r broses o rannu arbenigedd rhwng darparwyr; a
- ➜ datblygu cynlluniau strategol a gweithredol ar y cyd, rhannu adnoddau a derbyn atebolrwydd ar y cyd.

## Y cwricwlwm gwerthoedd

**40** Mae gan ysgolion sydd fwyaf effeithiol yn hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol ymhlith pobl ifanc arweinwyr cryf sy'n darparu synnwyr clir o gyfeiriad am y gwerthoedd y mae arnynt eisiau eu meithrin ac athrawon sy'n gweithredu fel modelau rôl ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn cydnabod bod cyfrifoldeb cymdeithasol disgyblion yn datblygu orau pan fydd eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei ategu gan werthoedd sy'n ymdreiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol.

**41** Mae gan ysgolion rôl bwysig eisoes mewn helpu i gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion trwy eu paratoi ar gyfer 'cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd diweddarach'. Mae'r canllawiau ar hyrwyddo a chefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn cydnabod [10]:

**"…yr heriau a wynebir gan ysgolion mewn cymdeithas ddatblygedig ac amrywiol a fframwaith democrataidd newidiol…wrth alluogi disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithgar, gwybodus a chyfrifol sy'n ymwybodol o'u hawliau ac yn ymroddedig i ddulliau democratiaeth gyfranogol a'r heriau o fod yn ddinesydd yng Nghymru a'r byd."**

**42** Mae grymuso disgyblion fel eu bod yn cael lleisio barn am y ffordd y mae ysgol yn bodloni eu hanghenion yn hanfodol i lwyddiant ysgolion yn y dyfodol. Mae sefydlu cyngor ysgol ym mhob ysgol yng Nghymru wedi bod yn gam gwerthfawr tuag at alluogi mwy o bobl ifanc i ddeall y rôl y gallent ei chael mewn prosesau democrataidd. Mae rhai cynghorau ysgol eisoes yn bwydo i fforymau ar draws awdurdod

[10] Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol Cyfnodau Allweddol 1 i 4 yng Nghymru (ACCAC, 2000)

lleol ac i'r Ddraig Ffynci, sef y senedd genedlaethol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Mae angen i'r cysylltiadau ehangach hyn â'r gymuned fod yn fwy cyffredin er mwyn gallu paratoi pobl ifanc yn fwy effeithiol ar gyfer eu rôl fel dinasyddion ifanc.

**43** Mae gan ysgolion rôl i helpu i addysgu disgyblion a phobl ifanc ynghylch datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru[11] wedi cadarnhau bod hyn yn flaenoriaeth allweddol mewn cyhoeddiad blaenorol:

"Mae pobl ifanc heddiw yn tyfu i fyny mewn byd lle mae ffyniant a chynnydd technolegol yn bodoli ochr yn ochr â thlodi mawr ac amgylchedd sydd dan fygythiad. Mae plant a phobl ifanc yn haeddu gwybod bod eu tynged yn cael ei gysylltu, a'i effeithio yn anorfod, gan fywydau a phenderfyniadau eraill ledled y byd. Mae ganddynt hawl i ddeall y materion hanfodol sy'n wynebu'r blaned a gwybod sut gallan nhw yn bersonol wneud eu rhan i helpu i lunio'r dyfodol."

**44** Mae gwaith yn y maes hwn yn datblygu, ond mae'r agweddau hyn wedi'u hymgorffori yn ethos a ffordd o weithio tua un o bob deg ysgol yn unig. Ar hyn o bryd, nid yw ysgolion yn glir ynghylch diffiniad, diben a manteision datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, sy'n ei gwneud yn anodd iddynt fynd i'r afael â materion cymhleth sy'n ymwneud â'r meysydd hyn. Mae angen dod ynghyd â phrofiadau dysgu perthnasol o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol, yn ogystal ag agweddau ehangach ar fywyd ysgol a chymuned, a'u huno i ffurfio rhaglen fwy cydlynus ar gyfer dysgwyr.



[11] Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn 'Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn, ACCAC a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, 2002)

## Ffyrdd ymlaen: Gwerthoedd

**I hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol ymhlith pobl ifanc, bydd angen i ysgolion y dyfodol:**

- ➜ gynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys disgyblion, mewn rhoi ystyriaeth benodol i werthoedd y dylai'r ysgol ei hyrwyddo;
- ➜ darparu hyfforddiant i ddatblygu dealltwriaeth athrawon o sut gellir datblygu a hyrwyddo cyfrifoldeb, parch a gwerthoedd cymdeithasol trwy bob pwnc;
- ➜ adeiladu ar botensial addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a mentrau eraill i hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol;
- ➜ defnyddio ystod ehangach o gymwysterau a chynlluniau dyfarnu i ganmol y medrau y mae disgyblion yn eu dysgu mewn cyrsiau sy'n hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol; ac
- ➜ olrhain ac arfarnu datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion a graddau eu cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau yn fwy effeithiol.

## Dwyieithrwydd

45 Ers y 1950au, mae'r sector cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog wedi datblygu a thyfu yng Nghymru. Mae'r galw gan rieni yn ogystal â chynllunio strategol mewn rhai awdurdodau addysg lleol wedi arwain at y cynnydd graddol yn nifer yr ysgolion sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg. Yn y rhannau o Gymru lle siaredir Cymraeg, yn enwedig yn y gogledd a'r gorllewin, mae llawer o ysgolion yn gwbl ddwyieithog. Yn ne a dwyrain Cymru, mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl. Yn fras, mae chwarter o ysgolion yng Nghymru bellach yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r cyflenwad o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog bob amser yn bodloni gofynion lleol. Mae rhai awdurdodau lleol yn parhau i ddibynnu ar awdurdodau cyfagos i ddarparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu disgyblion. O ganlyniad, mae rhai awdurdodau lleol yn cyfyngu dewis rhieni a chyfleoedd disgyblion i fynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn lleol.

46 Mae 'Iaith Pawb'[12] yn nodi targed i godi nifer y siaradwyr Cymraeg bum pwynt canran erbyn 2011. Datblygwyd sawl menter newydd i godi nifer y staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r mentrau hyfforddi hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar,

[12] Iaith Pawb (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003)

prosiectau peilot ar gyfer addysgu Cymraeg dwys ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd a rhaglen sabothol i wella Cymraeg athrawon cymwys, darlithwyr a darparwyr hyfforddiant. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes digon o staff dwyieithog i gyflawni dyheadau Iaith Pawb.

47 Mae'r Cyfnod Sylfaen newydd yn rhoi cyfle unigryw ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ddisgyblion Cymru i ddod yn gwbl ddwyieithog, p'un a ydynt yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog neu ysgolion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, gallai'r prinder cyfredol o ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n gwbl ddwyieithog rwystro'r broses o'i gyflwyno yn llawn.

48 Ers cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol ym 1990, mae ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn addysgu Cymraeg fel ail iaith i ddisgyblion iau, ond ychydig iawn ohonynt sy'n rhugl erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, ac mae'r niferoedd sy'n sefyll TGAU yn isel. Mae'r ffaith bod safonau dwyieithrwydd yn dda neu'n well mewn 40% yn unig o ysgolion uwchradd yn parhau i beri pryder. Y canran mewn ysgolion cynradd yw 70%.

49 Bydd angen cydweithrediad gwell rhwng ysgolion uwchradd a cholegau i gynnig addysgu a chyfleusterau ar y cyd ar gyfer rhai cyrsiau, a chyrsiau cyfrwng Cymraeg yn enwedig. Mae potensial trwy'r ddewislen Llwybrau Dysgu i ddisgyblion 14-19 oed ymgymryd â'u haddysg a'r hyfforddiant, yng nghyfnod allweddol 4 ac yn ddiweddarach, yn Gymraeg. Y rheswm am hyn yw y gallai rhannu niferoedd disgyblion ac arbenigedd staff ar draws ardal ddaearyddol ehangach wneud y ddarpariaeth yn fwy hyfyw a galluogi staff cymwys i weithio gyda mwy o ddysgwyr. Mae llwyddiant y mecanwaith yn dibynnu ar barodrwydd sefydliadau partner i gydweithio heb fod yn hunanol a rhannu adnoddau.

50 At ei gilydd, mae nifer y disgyblion sy'n parhau i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer eu haddysg a'u hyfforddiant ar lefelau uwchradd a thrydyddol yn isel. Mae diffyg parhad ieithyddol mewn darpariaeth ôl-16 ar gyfer disgyblion a fu'n astudio Cymraeg, neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn aml, nid yw'r disgyblion hyn yn cael y cyfle i ddefnyddio'r iaith mewn cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch. Nid oes digon o gymwysterau galwedigaethol ar gael yn Gymraeg. Mae angen newid y pethau hyn i fodloni gofynion cyflogwyr am fedrau Cymraeg a dwyieithog da ac i sicrhau bod Cymru yn dod yn genedl fwy dwyieithog.

51 Nid yw sefydliadau hyfforddiant athrawon Cymru yn hyfforddi digon o athrawon dwyieithog i alluogi pobl i weithio ar draws ysgolion Cymraeg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda'r bwriad o gynyddu maint dysgu dwyieithog. Nid yw'r gweithlu dwyieithog sy'n bodoli ar hyn o bryd yn gweithio ar draws gwahanol sefydliadau dysgu er mwyn cefnogi, hyrwyddo ac ysgogi datblygiad dwyieithrwydd.

## Ffyrdd ymlaen: Dwyieithrwydd

**I fodloni targedau Iaith Pawb:**

- ➜ mae angen mwy o athrawon ac arweinwyr cylchoedd chwarae dwyieithog hyfforddedig yn y Cyfnod Sylfaen;
- ➜ mae angen i awdurdodau lleol gynllunio yn fwy cydweithredol ac yn fwy strategol i ddarparu ar gyfer y niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n dymuno dewis addysg cyfrwng Cymraeg;
- ➜ mae angen i ysgolion a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon ddatblygu arbenigedd staff gwell yn yr iaith Gymraeg ac yn yr addysgeg gysylltiedig, er mwyn gwella'r broses o addysgu Cymraeg fel ail iaith ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- ➜ mae angen i ysgolion wella cyfleoedd dilyniant i sicrhau parhad gwell mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn enwedig rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3, trwy gynllunio trosglwyddo yn fwy effeithiol ar draws ysgolion;
- ➜ mae angen ar golegau addysg bellach i ddatblygu strategaethau marchnata i annog mwy o fyfyrwyr i ddewis cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn addysg bellach; ac
- ➜ mae angen i golegau addysg bellach gynyddu nifer yr athrawon mewn addysg bellach sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog trwy hyfforddi aelodau staff presennol sy'n siaradwyr Cymraeg i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Bodloni anghenion y gymuned

52 Yn yr ychydig flynyddoedd ers i Estyn gyhoeddi 'Ysgolion Ardderchog: Gweledigaeth i ysgolion yng Nghymru yn yr 21ain ganrif'[13], gwnaed rhai newidiadau i arferion gweithio traddodiadol. Mae ysgolion a'u partneriaid yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn agosach. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn agor eu drysau i'r gymuned ac yn adeiladu cysylltiadau ymarferol a chynhyrchiol gyda theuluoedd. Mae'r ysgolion hyn yn cydnabod bod dysgu disgyblion yn gweithio orau fel partneriaeth rhwng rhieni ac athrawon. Mae nifer fach o ysgolion wedi creu sylfaen ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd yn ogystal â phlant. Mae gwaith y Partneriaethau Pobl Ifanc eisoes yn ymestyn yr ystod o bartneriaid y gall ysgolion weithio gyda nhw mewn ardal awdurdod lleol.

53 Gall ysgolion â ffocws cymunedol gynnig addysg ac ystod eang o wasanaethau i ddysgwyr o bob oed, y tu mewn a'r tu allan i oriau ysgol traddodiadol. Gallai creu systemau ysgol lleol neu ranbarthol gydag adnoddau wedi'u rhannu fodloni anghenion dysgwyr rhwng tair ac un deg naw oed yn well. Wrth gwrs, mae'n hanfodol rhoi sylw priodol i ddiogelwch a lles pobl ifanc yn y mathau hyn o sefydliadau.

54 Mae ysgolion wastad wedi cyfrannu at les cymdeithasol ehangach y genedl trwy helpu i fynd i'r afael â phroblemau iechyd a lles. Fodd bynnag, er gwaethaf llawer o waith da gan athrawon a gweithwyr ieuenctid i helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus am berthynas, iechyd, cymryd cyffuriau, a beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau mae ffyrdd o fyw gwael rhai pobl ifanc yn parhau i beri pryder[14].

55 Yng Nghymru, mae nifer y merched yn eu harddegau sy'n beichiogi a chyfran y bobl ifanc sydd ag afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol yn cynyddu. Canfu astudiaeth gymharol ledled y DU, mai Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o ferched yn eu harddegau yn beichiogi gyda 35 o enedigaethau byw i bob 1000 o ferched o dan 20 oed, o'i gymharu â chyfradd o 28 o enedigaethau byw i bob 1000 yn Lloegr. Mae'r cyfraddau ysmygu ac yfed alcohol yn uchel ymhlith pobl ifanc. Mae cyfraddau'r merched ifanc sy'n cael problemau oherwydd alcohol neu gyffuriau yng Nghymru yn uwch nag ar gyfer bechgyn yng Nghymru ac ar gyfer pobl ifanc yn Lloegr. Mae ymchwil[15] yn dangos bod 50% o ferched ifanc yng Nghymru wedi cael problemau oherwydd alcohol a chyffuriau, o'i gymharu â 39% o fechgyn yng Nghymru. Y ffigurau y gellir eu cymharu ar gyfer pobl ifanc yn Lloegr yw 43% o ferched a 39% o fechgyn. Mae yfed o dan oedran wedi dod yn rhywbeth cyffredin yn ein parciau ac ar gorneli ein strydoedd. Gall pobl ifanc gael diodydd alcoholig yn rhad yn eu hardaloedd lleol. Mae goblygiadau iechyd tymor canolig a thymor hir yr

[13] Ysgolion Ardderchog: Gweledigaeth i ysgolion yng Nghymru yn ystod yr 21ain ganrif (Estyn, 2002)

[14] Gweler 'Child poverty in perspective: An overview of child well-being in rich countries' (UNICEF, 2007) am drosolwg cynhwysfawr.

[15] The Well-being of Children in Wales 2005 (Prifysgol Caerefrog ar ran Achub y Plant).

ymddygiad hwn yn peri gofid. Mae gan ysgolion rôl allweddol mewn helpu pobl ifanc i ddeall manteision ffyrdd iachach o fyw. Gallant hefyd helpu pobl ifanc i ddatblygu a defnyddio'r medrau personol a chymdeithasol sydd eu hangen i osgoi pwysau gan gyfoedion sy'n gallu arwain at yfed alcohol yn amhriodol ac ymddygiad cysylltiedig sy'n bygwth iechyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddai gweithio'n agosach â phartneriaid ac asiantaethau eraill yn galluogi ysgolion i gyfrannu'n fwy effeithiol at y gwaith hwn.

**56** Mae nifer llawer rhy fach o blant a phobl ifanc yn bwyta diet sydd wedi'i gynllunio ar gyfer iechyd tymor hir. Mewn cymhariaeth o 35 o wledydd, mae Cymru ymhlith y gwledydd sydd â'r arferion gwaethaf o ran pobl ifanc yn bwyta ffrwythau a llysiau. Mae niferoedd cynyddol o bobl ifanc yn ordrwm neu yn ordew,[16] er gwaethaf y ffaith eu bod yn gwybod am fanteision ymarfer corff rheolaidd. Mae datblygiadau diweddar, fel y fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgolion (AGChY) wedi dangos canlyniadau calonogol. Mae'r Canolfannau Datblygu wedi gwella cyfleoedd chwaraeon i bobl ifanc ac wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau at ddysgu disgyblion sy'n cymryd rhan. Er bod y cwricwlwm mewn ysgolion yn cynnwys addysg gorfforol, cyfnod byr sydd fel arfer yn cael ei dreulio ar y pwnc hwn yn ystod oriau ysgol. Mewn ysgolion ledled Ewrop ac mewn ysgolion mewn sectorau eraill, fel ysgolion annibynnol, caiff y diwrnod ysgol fel arfer ei drefnu er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a chwaraeon yn ystod ac ar ôl oriau ysgol traddodiadol. Ni wneir digon o ddefnydd o rai cyfleusterau chwaraeon drud a modern oherwydd oriau agos a mynediad cyfyngedig. Gallai plant, pobl ifanc a'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol rheolaidd ac elwa ar y manteision y mae'r cyfleusterau hynny yn eu cynnig ar gyfer ffordd iachach o fyw.

**57** Mae datblygu addysg â ffocws cymunedol yn golygu y bydd angen i ysgolion yn y dyfodol weithio hyd yn oed yn agosach â'u partneriaid strategol allweddol, wrth ffurfio a rheoli patrwm o wasanaethau lleol a chynnig adnoddau addysgol i'r gymuned gyfan. Ledled Cymru, mae nifer o ysgolion eisoes yn ymwneud â'r ffordd hon. Er enghraifft, mae gan rai ysgolion cynradd berthynas sy'n tyfu gydag asiantaethau cymorth cymdeithasol a sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd. Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn datblygu eu darpariaeth i fodloni anghenion y gymuned ehangach trwy raglenni dysgu teuluol. Mae cynnydd calonogol hefyd yn nifer yr ysgolion sy'n cydweithredu â theuluoedd ac asiantaethau cymunedol i ddarparu gofal cyn ac ar ôl y diwrnod ysgol, yn ogystal â chyfleoedd i ddisgyblion astudio mewn canolfannau gwaith cartref. Mae rhai ysgolion uwchradd yn gweithio gydag ysgolion eraill a cholegau addysg bellach i helpu i ehangu'r cwricwlwm a gynigir i bobl ifanc. O fewn dull sydd â ffocws cymunedol, mae cyfle hefyd i ysgolion a gynhelir ac

[16] The Well-being of Children in Wales 2005 (Prifysgol Caerefrog ar ran Achub y Plant).

ysgolion annibynnol feithrin cysylltiadau a gweithio'n agosach ym mhob sector.

**58** Yr estyniad rhesymegol o'r duedd ar gyfer ysgolion â ffocws cymunedol yw gwneud ailstrwythuro ysgolion yn sylfaen ar gyfer bodloni llawer o anghenion teuluoedd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae galw mawr am wasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Er gwaethaf yr heriau sylweddol i ysgolion a darparwyr gwasanaeth eraill, cydnabu'r Tasglu Cau'r Bwlch effaith y dimensiwn cymunedol wrth godi safonau pan wnaethant edrych ar y bwlch ym mherfformiad ysgolion uwchradd.

Canfu'r grŵp hwn y canlynol[17]:

**"…mae'r ffocws ar ddarpariaeth gymunedol...yn cynnig potensial ar gyfer manteision lluosog i ddysgwyr, ysgolion a'u cymunedau...gan annog oedolion yn ôl i ddysgu...yn newid y diwylliant trwy godi proffil dysgu…"**

**59** Mae dod â chymunedau at ei gilydd trwy ymgysylltu â dysgu yn gwella hunan-barch cyfunol y gymuned gyfan. Mae dyheadau uwch a mwy o benderfyniad i fynd o'r ysgol i addysg bellach neu hyfforddiant a chyflogaeth yn cael effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad disgyblion. Roedd gwaith dilynol Tasglu Cau'r Bwlch ar berfformiad ysgolion cynradd hefyd yn cadarnhau'r canfyddiad hwn.[18]



## Ffyrdd ymlaen: Ysgolion â ffocws cymunedol

**Bydd angen i ysgolion â ffocws cymunedol y dyfodol:**

- ➜ weithio hyd yn oed yn agosach â phartneriaid i ddangos bod dysgu yn ddymunol i bobl o bob oed a bod dysgu ochr yn ochr ag oedolion yn gallu cymell ac ysbrydoli dysgwyr ifanc ac i'r gwrthwyneb;
- ➜ gweithio'n agosach â phartneriaid strategol allweddol, fel y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i annog ffyrdd iachach o fyw;
- ➜ sicrhau defnydd gwell o'u hadnoddau, fel cyfleusterau chwaraeon, i ddod yn ganolfan ar gyfer integreiddio cymdeithasol; a
- ➜ gwella enw'r ysgol yn y gymuned, gan helpu i ennyn hyder yn ehangach yng ngwerth cyfleoedd addysgol.

[17] Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion (Dogfen Wybodaeth AHA Rhif: 029-02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002)

[18] Prosiect Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion: Cyfnod 11 Ysgolion Cynradd (Dogfen Wybodaeth Rhif: 048-05 Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005)

## Ysgolion bach

**60** Mae llawer o ysgolion yng Nghymru mewn ardaloedd gwledig ac mae llawer o'r rhain yn ysgolion bach. Nid oes cyswllt uniongyrchol rhwng pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud a maint yr ysgol y maent yn ei mynychu. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau a'r gofynion baich gwaith athrawon mewn ysgolion bach iawn yn sylweddol ac mae darparu adnoddau ariannol ar gyfer yr ysgolion hyn yn sylweddol ac yn gofyn llawer gan gyllidebau cyfyngedig.

**61** Gall modelau gwahanol o drefniadaeth ysgol weithredu yn llwyddiannus iawn, gan gynnwys modelau fel clystyru ac ysgolion ardal. Gall technoleg gwybodaeth a chyfathrebu helpu staff yn y math yma o sefydliadau i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon. Ledled Cymru, mae angen i ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig mewn addysg 14 -19 ac mewn llwybrau addysg a hyfforddiant ôl-16, gael yr un dewisiadau, cyfleoedd a mynediad â'u cyfoedion mewn dinasoedd a threfi, er y gallai'r fecanwaith ar gyfer cyflawni'r nod hwn fod yn wahanol, er enghraifft, yn cynnwys dysgu o bell trwy gymorth technoleg.

**62** Mewn rhai rhannau o Gymru, caiff ysgolion eu trefnu yn ffederasiynau lle rhennir trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli. Mae'r trefniant hwn wedi datrys y dilema i'r rheiny sydd am gadw cryfderau ysgolion bach ac eto eu diogelu rhag cael eu hynysu. Gall ffederasiwn adlewyrchu anghenion lleol ac ennill ymroddiad y gymuned leol. Mewn gwirionedd, mae'r model ffederasiwn fel arfer yn cael cefnogaeth gan ysgolion bach a'u cymunedau oherwydd gall defnyddio hwn olygu bod modd osgoi cau ysgolion bach. Er bod cymunedau yn falch o'u hannibyniaeth ac yn ei gwerthfawrogi, maent yn cydnabod yr angen i fod yn gyd-ddibynnol.

### Ffyrdd ymlaen: Ysgolion bach

**Bydd angen i ysgolion bach y dyfodol gydweithio fel eu bod:**

➜ yn cynnal yr ethos 'teuluol' sy'n nodweddu ysgolion bach, tra'n cyflawni mwy o effeithlonrwydd trwy reoli a gweinyddu ar draws safleoedd;

➜ yn rhannu arbenigedd ac adnoddau ac yn gwella cyfleoedd ar gyfer addysgu arbenigol;

➜ yn darparu ystod ehangach o gyfleoedd dysgu a gweithgareddau allgyrsiol; ac

➜ yn sicrhau manteision cymdeithasol ehangach i ddisgyblion o ardaloedd gwledig anghysbell.

## Dyluniad ysgolion

**63** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu ymwybyddiaeth gynyddol o'r rôl sydd gan ddylunio adeiladau da mewn addysg lwyddiannus. Mae amgylchoedd pleserus yn tueddu i wella hunan-barch disgyblion a gall hyn yn ei dro arwain at safonau addysgol gwell. Fodd bynnag, mae gormod o'n hadeiladau ysgol yn anneniadol ac yn anghyfforddus. Nid ydynt yn bodloni'r safonau yr ydym yn eu disgwyl o adeiladau cyhoeddus heddiw. Mae arolygu wedi dangos bod diffygion yn adeiladau hyd at draean o ysgolion cynradd a thua un o bob pum ysgol uwchradd.

**64** Mae llawer o ysgolion yng Nghymru dros gant oed ac mae angen llawer o waith cynnal a chadw ar lawer o ysgolion a adeiladwyd yn ddiweddarach. Mae angen gwneud gwaith atgyweirio ac uwchraddio drud yn barhaus i lawer o'r ysgolion hyn ac mae'n anodd eu gwneud yn addas at eu diben yn aml, er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, gyda'i bwyslais ar ddysgu y tu mewn a'r tu allan. Mewn nifer sylweddol o ysgolion, nid yw disgyblion yn cael mynediad parod at fannau cymunedol cyfforddus na gwasanaethau hamdden, cyfleusterau chwaraeon ansawdd uchel, na hyd yn oed cyfleusterau toiled digonol. At ei gilydd, nid oes digon o ddisgyblion na staff mewn adeiladau pwrpasol sydd wedi'u dylunio'n dda: maent yn gweithio mewn adeiladau, sydd wedi'u dylunio ar gyfer addysgu dosbarth ffurfiol, ac nid oes ganddynt yr hyblygrwydd ar gyfer y dulliau addysgu a dysgu sy'n ofynnol yn yr 21ain ganrif.

**65** Mae problem gynyddol hefyd o ran rheoli effaith y gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau. Pe bai'n bosibl lleihau nifer yr ysgolion i gyfateb i nifer y disgyblion, byddai tua 275 o ysgolion cynradd maint cyffredin (17% o'r cyfanswm) a 26 o ysgolion uwchradd maint cyffredin (11% o'r cyfanswm) yn cau. Yn ogystal, mae symudiadau mewn poblogaeth yn golygu efallai na fyddai angen ysgolion a adeiladwyd yn wreiddiol i wasanaethu cymuned benodol mwyach, tra bo angen ysgolion newydd ar gyfer canolfannau preswyl newyddach. Mae dileu lleoedd dros ben, adeiladu ysgolion i wasanaethu cymunedau newydd a gwella cyflwr adeiladau ysgol presennol, yn her fawr ariannol a strategol. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi'i chael yn anodd cynllunio er mwyn i bob un o'u hysgolion fod yn addas at eu diben erbyn dyddiadau targed cytûn.

**66** Ceir rhai enghreifftiau ardderchog o ddylunio arloesol mewn rhannau amrywiol o Gymru. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnal ailfodelu dychmygus o ysgolion unigol sy'n gweddu'n dda i ddysgu. Rhaid i unrhyw weledigaeth ar gyfer ysgolion y dyfodol gynnwys cynllunio a dylunio ysgolion mewn ffordd sy'n bodloni dyheadau'r 21ain ganrif.

**67** Yn benodol, mae angen i bobl ifanc allu mynegi eu barn a dylanwadu ar ddylunio a chynllunio ysgol. Mae'r materion sy'n bwysig iddynt yn cynnwys cael loceri personol hygyrch a diogel fel nad oes angen iddynt gario bagiau trwm trwy gydol y dydd.



Gallai'r mesur hwn ynddo'i hun helpu i gyfyngu'r perygl y bydd pobl ifanc yn datblygu anafiadau osgo a chymalau yn y dyfodol. Dylai pobl ifanc hefyd allu mwynhau cyfleusterau cymdeithasol pleserus fel caffis a chael mynediad at ystod o wasanaethau ieuenctid.

**68** Yn ogystal, dylai'r amgylchedd lleol allu annog disgyblion, rhieni a staff mewn ardaloedd trefol i ddefnyddio cludiant cyhoeddus neu gerdded neu feicio i'r ysgol gyda llwybrau cerdded a ffyrdd beicio dynodedig diogel. Mewn ardaloedd gwledig, bydd yn bwysig i ysgolion ac awdurdodau lleol hyrwyddo mathau o gludiant sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn ogystal â systemau cludiant a rennir.

**69** Mae mwy o bobl bellach hefyd yn sylweddoli pwysigrwydd pwysleisio cynaliadwyedd a lleihau defnydd o ynni. Yn ddiweddar iawn, mae deddfwriaeth newydd fel Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth a'r goblygiadau i gynllunio strategol, prosiectau datblygu, llif cyllid a rheoli tir ac eiddo, yn sgil y gofyniad hwn.

**70** Wrth i gynlluniau a chyllidebau ar gyfer adeiladau newydd gael eu paratoi, ni ddylai toriadau oedran artiffisial a modelau sydd eisoes yn bod gyfyngu na dylanwadu'n ormodol ar ddyluniadau. O'r dechrau, dylai ysgolion newydd ystyried torri'r tir newydd o ran yr hyn sydd wedi bodoli o'r blaen.

## Ffyrdd ymlaen: Adeiladau a chyfleusterau

**Dylai ysgolion y dyfodol gael:**

- ➜ adeiladau deniadol a modern sy'n defnyddio ffynonellau cynaliadwy o ddeunyddiau sy'n cadw'r traddodiadau pensaernïaeth ac adeiladu lleol gorau a'u bod yn effeithlon o ran ynni ac adnoddau;
- ➜ adeiladau digonol, ansawdd uchel, sydd wedi'u dylunio'n dda, y gellir eu defnyddio'n hyblyg ar gyfer addysgu a dysgu gan ddefnyddio ystod o ddulliau;
- ➜ cyfleusterau o'r radd flaenaf lle gall disgyblion fwynhau prydau iach;
- ➜ darpariaeth fodern addas a glân ar gyfer toiledau a hylendid personol;
- ➜ adeiladau sy'n hygyrch i'r gymuned gyfan sydd â chyfleusterau addas ar gyfer dysgwyr anabl;
- ➜ cyfleusterau cyfoes, fel canolfannau TG, labordai, gweithdai a llyfrgelloedd, i'w defnyddio gan ddisgyblion, staff, rhieni ac aelodau o'r gymuned;
- ➜ mannau cymunedol cysgodol diogel, wedi'u goleuo'n dda, a chaeau ar gyfer chwarae ac ymlacio, sy'n annog i'r gymuned wneud defnydd eang ohonynt er mwyn i ddefnyddwyr ymfalchïo mewn gofalu am eu hardal;
- ➜ cyfleusterau chwaraeon a chwarae y tu mewn a'r tu allan sydd ar gael i ddisgyblion a'r gymuned; a
- ➜ gwasanaethau cymunedol, lle caiff disgyblion a'u teuluoedd fynediad at ystod eang o gymorth, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

## Ysgolion a thechnoleg

**71** Mae datblygiadau mewn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rhoi cyfleoedd i ysgolion fod yn greadigol a gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Gallai herio'r ffordd y mae ysgolion yn defnyddio technoleg ac yn elwa ar ddatblygiadau technolegol fod yn fwy buddiol i ddysgu disgyblion trwy roi mwy o gyfleoedd ar gyfer dewisiadau dysgu, ennyn diddordeb a chymhelliant a rhoi mynediad ehangach at astudio ar-lein. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd eang o dechnoleg yn ystod eu hamser hamdden, nid yw ysgolion eto yn defnyddio TGCh gyfoes i'w llawn botensial.

**72** Gall y rhyngrwyd ymestyn gweithgareddau personol yn yr ystafell ddosbarth i gartrefi a llyfrgelloedd. Mae technoleg wedi'i gwneud yn bosibl i ddisgyblion fewngofnodi a chael gwersi ar-lein o gartref neu rywle arall. Gall disgyblion gael gwersi lle gallant weld a chlywed yr athro a holi cwestiynau yn ogystal â chael adborth personol ar eu gwaith. Gyda thechnolegau newydd, mae'n bosibl, mewn clwstwr o ysgolion, i bob ysgol ddatblygu gwahanol feysydd arbenigedd er mwyn rhannu'r baich addysgu a chynllunio.

**73** Gallai mwy o ddefnydd o dechnoleg helpu i rannu addysgu a dysgu ar draws ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion bach. Gall disgyblion mewn ardaloedd gwledig aros yn eu hysgolion lleol a chael mynediad at ystod ehangach o bynciau ac adnoddau trwy e-ddysgu. Mae'r defnydd o TGCh hefyd yn rhoi cyfleoedd i elwa ar ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill. Mae'n galluogi rhannu arfer orau yn ehangach ac yn fwy uniongyrchol ar draws pob maes. Gallai datblygu a gwella'r ddarpariaeth o ran gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar draws ystod gyfan o sectorau a phartneriaethau drawsnewid y broses o integreiddio gwasanaethau ar-lein, a galluogi cyswllt â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd wella'n fawr.

**74** Nid yw costau uchel darparu offer TGCh mewn ysgolion wedi darparu adenillion da o ran y manteision sydd gan y cyfleusterau hyn i'w cynnig. Yn rhy aml, nid oes adnoddau ysgol drud ar gael ar gyfer dysgu ac addysgu ar gyfer cyfrannau mawr o'r diwrnod ysgol. Gellid gwneud defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau hyn a dod â manteision ehangach i'r gymuned trwy agor ysgolion yn amlach ac yn fwy rheolaidd er mwyn i'r gymuned ei defnyddio.

**75** Gall technolegau newydd gymell pobl yn fawr a chynnig adnoddau dysgu cyfoethog. Gallant gynhyrchu ymatebion rhyngweithiol a llawn dychymyg gan ddisgyblion a chynnig dysgu mewn ystod o ffyrdd ac amseroedd.

## Ffyrdd ymlaen: Defnyddio technolegau

**Bydd angen i ysgolion y dyfodol adeiladu ar fanteision technolegau newydd trwy:**

- ddefnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan ddysgu o bell a dysgu oddi ar y safle;
- darparu mynediad at offer TGCh ar gyfer pob dysgwr, sy'n cysylltu dysgu gartref a dysgu yn yr ysgol;
- rhoi mwy o gymorth ar-lein, gan gynnwys nodiadau gwersi a deunydd ymchwil gyda chyfleusterau ar gyfer gosod gwaith o'r ysgol ac anfon aseiniadau o gartref;
- ymestyn ystafell ddosbarth yr ysgol trwy gyfleusterau fideo gynadledda, e-bost a gwe gamera;
- gwneud mwy o ddefnydd o becynnau dysgu o bell, gyda gwaith wedi'i gefnogi gan fentoriaid ysgol; a
- darparu mynediad at wahanol lwybrau dysgu ar wahanol safleoedd dysgu a thrwy gyfleusterau rhyngweithiol.

## Staffio

76 Ym mhob rhan o fywyd, mae'r ffordd y mae arbenigwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn newid. Mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn bodloni heriau uniongyrchol ailfodelu. Ond mae gormod o ysgolion a chymdeithas yn gyffredinol yn dal i ystyried staff ysgol naill ai yn athrawon neu yn staff nad ydynt yn addysgu. Mae ailfodelu'r gweithlu wedi achosi cynnydd yn nifer ac ystod yr oedolion yn yr ysgol ac mae wedi golygu bod arweinwyr yn rheoli mwy o bobl. I lawer o ysgolion, mae hyn wedi golygu canolbwyntio amser athrawon ar addysgu a dysgu a defnyddio gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau addas o'r tu allan i ymgymryd â rolau eraill.

77 Wrth i fwy o amrywiaeth o staff gyfrannu'n llwyddiannus at ddysgu, bydd yr amgyffrediad o addysgu a darpariaeth chymorth yn newid. Mae defnyddio medrau pobl fel cynghorwyr, hyfforddwyr dysgu, gweithwyr ieuenctid, therapyddion, hyfforddwyr chwaraeon, hyfforddwyr dawns ac arlunwyr i gefnogi dysgu galwedigaethol ac allgyrsiol yn ychwanegu dimensiwn pwysig at brofiadau disgyblion, dysgu a chyflawniad a hyblygrwydd i reoli'r dysgu yn yr ysgol. Yn ogystal, gall medrau a doniau gwirfoddolwyr a phobl eraill yn y gymuned ymestyn cyfleoedd dysgu disgyblion a chyfoethogi dysgu ymhellach.

78 Y tu hwnt i'r ysgolion eu hunain, mae llawer o awdurdodau lleol yn dechrau gweld bod angen i wasanaethau ar gyfer gofal ac addysg fod yn llawer mwy cysylltiedig, os ydynt am fodloni anghenion pob person ifanc ac osgoi dyblygu ymdrech ac adnoddau. Mae gwasanaethau fel tai, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, a chludiant wedi gweithredu yn rhy annibynnol yn y gorffennol heb roi digon o ystyriaeth i anghenion cyfannol y cleientiaid. Dylai cael cynlluniau addysg unigol a chael ysgolion yn y gymuned sy'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gynllunio ar y cyd, alluogi asiantaethau i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol nag yn y gorffennol.

79 Dylai pob ysgol allu elwa ar ddarpariaeth arbenigol aml-wasanaeth o'r fath. Gall disgyblion a staff elwa ar weithio gyda staff mewn sectorau eraill, fel yr heddlu a gwasanaethau cymorth ieuenctid.

80 Mae nifer o ysgolion blaengar eisoes wedi cydnabod y modd y gall medrau gwahanol grwpiau o ymarferwyr gyfrannu at waith yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn gweld manteision gweithio ar draws ffiniau traddodiadol. Mae'r ysgolion hyn wedi gweithio'n galed i sicrhau eu bod wedi rhoi'r bobl gywir yn y swydd gywir. Bydd cynnwys ystod ehangach o oedolion wrth weithio gyda dysgwyr yn helpu ysgolion i fod yn fwy arloesol wrth iddynt ddefnyddio gwahanol fathau o ddarpariaeth sefydliadol i ysgogi dysgu a gwelliant mewn gwahanol fathau o ffyrdd.

**81** Wrth i athrawon ddefnyddio dulliau amrywiol i gynorthwyo dysgu a gweithio gyda gwahanol grwpiau o ymarferwyr a gwirfoddolwyr, gan gynnwys rhieni a gofalwyr yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt, bydd angen mwy o hyblygrwydd gan athrawon ac arweinwyr ysgol. Cydnabuwyd hyn yn y Cod Proffesiynol ar gyfer Athrawon[19] a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n cydnabod cyfraniad athrawon at ddatblygiad ehangach yr ysgol a'r ffordd y mae athrawon yn gweithio gyda, ac yn rheoli, grwpiau gwahanol o oedolion medrus iawn.

**82** Ymhellach, bydd y ffaith fod ystod ehangach o arbenigwyr yn cymryd rhan yn cyfrannu at ddysgu yn cynnig cyfle ar gyfer modelau staffio a threfniadau gweithio mwy hyblyg. Dylai hyn wneud defnydd gwell o fedrau llawer o bobl ac yn eu helpu i gyflawni cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd. Nid oes un model sy'n addas i bawb ar gyfer ysgolion, ond mae meddwl yn ddychmygus ac yn hyblyg yn allweddol i wneud newidiadau llwyddiannus yn y modd y gellir defnyddio'r gweithlu. O anlyniad, gallai staff mewn ysgolion elwa mwy ar batrwm gwaith hyblyg, a allai gynnwys trafod eu horiau gwaith a'u gwyliau fel eu bod yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr a'u hamgylchiadau eu hunain. Ni ddylai gwneud yn siwr fod disgyblion yn cael yr ystod ehangaf o ddarpariaeth ddysgu i fodloni eu diddordebau, eu tueddfryd a'u hanghenion, yn ogystal ag ymestyn y ddarpariaeth honno i grwpiau eraill o ddysgwyr mewn ysgolion â ffocws cymunedol, olygu mwy o ofynion ar staff o angenrheidrwydd. Yn hytrach, dylai arwain at wahanol ffyrdd o drefnu defnyddio'r holl adnoddau dynol mewn ysgolion.

**83** Mae'n ymddangos bod proffil ystadegol athrawon yng Nghymru[20] hefyd yn awgrymu bod angen mwy o hyblygrwydd mewn modelau staffio os yw ysgolion am gadw, datblygu a chynnal yr holl staff cofrestredig yng Nghymru, sef bron i 40%, a'r penaethiaid sydd yn y grŵp oedran 50+, sef dros 65%.

**84** Mae newidiadau mewn rolau athrawon a'r ffordd y bydd addysgu a dysgu yn digwydd yn y dyfodol yn golygu bod angen dulliau newydd ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon a hyfforddiant mewn swydd. Mae'r dulliau newydd hyn eisoes wedi cael eu cydnabod yn angenrheidiol mewn adolygiad diweddar o Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yng Nghymru[21], sy'n datgan:

**"…mae gan Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon rôl bwysig mewn cefnogi'r newidiadau hyn am ei fod yn ymwneud â pharatoi 'athrawon y dyfodol'…"**

[19] Y Cod Proffesiynol ar gyfer Athrawon (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, 2004)

[20] Crynhoad o Ystadegau Blynyddol (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, 2006)

[21] Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yng Nghymru: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru (2006)

**85** Yn benodol, nid yw datblygiad medrau personol, arweinyddiaeth, rheolaethol a medrau tîm wedi ymddangos yn gryf mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn y gorffennol. Mae'r adroddiad adolygu yn nodi hyn ac yn cyfeirio at ddisgwyliad cynyddol o weithio ar draws proffesiynau, a fydd yn ymestyn dulliau traddodiadol at addysgu a dysgu. Gallai athrawon elwa ar hyfforddiant ochr yn ochr ag ymarferwyr eraill yn gweithio gyda phobl ifanc, a allai ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon newydd o faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae gan ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon gyfraniad pwysig i'w wneud at yr agenda ar gyfer newid a gwelliant mewn ysgolion. Bydd angen iddynt addasu eu darpariaeth fwyfwy a gwneud yn siwr bod ganddynt y gallu i fodloni'r heriau hyn.

**86** Os ydym yn symud y tu hwnt i recriwtio a hyfforddiant cychwynnol i gadw a datblygu staff, mae cynigion ar gyfer Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Athrawon yng Nghymru wedi amlygu na fu unrhyw gynllunio strwythuredig, cydlynu, cydnabod a datblygiad sicrhau ansawdd trwy gydol gyrfa'r athro[22]. Mae llawer o ysgolion ac athrawon unigol eisoes yn gwneud defnydd sylweddol o weithgareddau



datblygu i drawsnewid arfer a chodi safonau cyflawniad disgyblion. Ar yr un pryd, mae'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant mewn swydd a datblygiad y staff ehangach mewn ysgolion mewn cyfnod cynnar o hyd.

**87** Mae rheoli perfformaid yn gyfrwng allweddol wrth wella perfformiad staff unigol ac yn fwy cyffredinol wrth ddatblygu a chynllunio gweithlu. Dylai trafodaethau un i un rheolaidd, trylwyr a gonest am berfformiad fod wedi'i gysylltu â chynllunio cyfleoedd datblygiad a hyfforddiant a chanolbwyntio'n gynyddol ar allu aelodau unigol o staff i gydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill, eu harwain neu eu rheoli.

[22] Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Athrawon yng Nghymru (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, 2005)

88 Mae gwneud newidiadau mewn trefniadau staffio yn gam mawr tuag at weledigaeth o gael mwy o amrywiaeth mewn staffio ysgol lle mae athrawon yn gweithio yn fwy hyblyg fel rhan o dimau amlddisgyblaethol. Mae angen datblygiad proffesiynol achrededig ar gyfer y gweithlu i wireddu'r weledigaeth hon, sy'n dechrau gyda hyfforddiant cychwynnol pob unigolyn ac yn parhau trwy gydol ei (g)yrfa. Dylai ailfodelu'r gweithlu ymhellach gynnwys ymrwymiad i adolygu rolau, gwella amodau a sicrhau mwy o hyblygrwydd ac atebolrwydd. Byddai newid mentrus o'r math hwn wir yn cefnogi gweithio aml-asiantaethol ac ysgolion â ffocws cymunedol.

## Ffyrdd ymlaen: Staffio

**Bydd angen i ysgolion y dyfodol:**

- ailfeddwl am strwythuro staffio o ran addasrwydd at ddiben;
- rheoli rolau staff amrywiol i gefnogi cyflawniad disgyblion;
- datblygu medrau rhwydweithio a thrafod staff i gefnogi gweithio partneriaeth;
- datblygu a meithrin staff trwy systemau rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol effeithiol; a
- chefnogi dechreuwyr a myfyrwyr newydd yn eu rhaglenni cyn-cymhwyster ac ôl-gymhwyster.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**89** Gellir nodi nodweddion da cyffredin yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgolion gorau yng Nghymru heddiw. Nodweddion mwyaf arwyddocaol arweinyddiaeth dda yw synnwyr cryf o gyfeiriad, ffocws clir ar addysgu a dysgu a phwyslais di-dor ar godi safonau. Er gwaethaf y gwelliant mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn y blynyddoedd diwethaf, nid oes lle ar gyfer hunanfodlonrwydd. Mae mynd i'r afael â'r diffygion yn ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn lleiafrif o ysgolion yng Nghymru yn her fawr i ysgogi ac ymgorffori newid a fydd yn trawsnewid perfformiad ysgolion.

**90** Mae angen dulliau newydd o ran arweinyddiaeth ysgolion ar gyfer heriau newydd fel: cefnogi dulliau newydd o addysgu a dysgu; gweithredu trefniadau ar gyfer ailfodelu'r gweithlu a rheoli perfformiad; paratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Llwybrau Dysgu 14-19; cefnogi polisi cenedlaethol ar gyfer gwella cyfleoedd bywyd plant trwy wasanaethau cysylltiedig; cydweithio â darparwyr eraill; a darparu gwerth gwell am arian. Mae'r dulliau newydd hyn yn rhoi gwerth uwch i fedrau rhwydweithio a thrafod mewn model rheoli o arweinyddiaeth ddosranedig yn hytrach nag ar barhau ag arddull rheoli traddodiadol hierarchaethau sefydliad unigol. Er mwyn i'r dulliau newydd lwyddo, bydd angen goresgyn rhwystr y system addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar gyllidebau dirprwyedig ac awdurdod lle mae diogelu ymreolaeth gorfforaethol mewn amgylchedd cystadleuol yn un o'r prif bethau sy'n sbarduno arweinwyr.

**91** Mae rhai ysgolion eisoes wedi addasu eu strwythurau a'u harddull arweinyddiaeth, I sicrhau eu bod yn cyfateb yn well i anghenion a gofynion newydd a newidiol. Mae tystiolaeth arolygu yn rhoi disgrifiad o'r modd y mae rhai arweinwyr a staff wedi gweithio ar y cyd mewn amgylcheddau cymhleth a beichus. Mewn ysgolion eang eu sail sydd â ffocws cymunedol, mae arweinwyr ysgol yn ymateb i heriau darpariaeth amlasiantaethol.

**92** Er mwyn i ysgolion hyrwyddo dysgu gydol oes a datblygiad cymunedol, bydd angen I bob arweinydd gael gweledigaeth a'r gallu i godi disgwyliadau ac ysbrydoli a chymell eraill. Bydd angen i arweinwyr weithio yn fwy hyblyg mewn gwahanol fathau o rolau rheoli. Bydd angen cydweithredu ag asiantaethau allanol bob amser ar gyfer cynllunio, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn ogystal â darparwyr addysg eraill fel dysgu oedolion.

**93** Mewn ysgolion, bydd angen i staff gyflwyno addysg a hyfforddiant ymatebol mewn lleoliadau gwahanol ac mewn ffyrdd gwahanol i gefnogi, mentora a hyfforddi dysgwyr yn ogystal ag ymgymryd â chyfrifoldebau



ehangach ar gyfer gweithio'n effeithiol ar draws y llwybrau cwricwlwm medrau a gwerthoedd.

94 Wrth i ddiwylliant o hunanarfarnu trylwyr ddod yn rhan sefydledig o arfer ysgol ac ysgogi gwelliant parhaus, mae'n rhesymol i ddisgwyl i ysgolion ddod hyd yn oed yn fwy atebol ar gyfer eu gwelliant eu hunain. Mae ysgolion eisoes yn gwella o ran gosod nodau yng ngoleuni'r adborth a gânt gan eu cwsmeriaid a'u rhanddeiliaid. Bydd gwella yn y dyfodol yn dibynnu ar lwyddiant arweinwyr a rheolwyr wrth ymestyn diwylliant o hunanfeirniadaeth er mwyn bod yn fwy ymatebol i anghenion y dysgwr a'r gymuned.

95 Mae gweithredu proses rheoli perfformiad ar gyfer ysgolion yn ddiweddar yn ddatblygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae lle i wella'r broses hon er mwyn iddi allu cyfrannu mwy at ddatblygu diwylliant o welliant corfforaethol parhaus. Ar hyn o bryd, mae rheoli perfformiad mewn ysgolion '...yn gosod fframwaith ar gyfer athrawon a'u harweinwyr tîm i gytuno ar, ac adolygu blaenoriaethau ac amcanion yng nghyd-destun cynlluniau datblygu ysgolion...'[23].

96 Ar draws llawer o sectorau gwaith preifat a chyhoeddus, mae cysyniad ehangach o reoli perfformiad. Yn y sectorau hyn, mae rheoli perfformiad yn gyfrwng strategol craffach, wedi'i gysylltu â materion ehangach, fel ysgogi a rheoli newid yn ogystal â chynllunio corfforaethol a rheoli pobl. Yr hyn sy'n bwysig yw y dylai'r broses ennyn yr holl staff yn y cysyniad bod rheoli pobl a chael eich rheoli yn bethau cyson.

97 Dylai rheoli perfformiad wneud y gorau o effeithiolrwydd gwaith pobl o ddydd i ddydd, cyfrannu at lefelau uwch o lwyddiant a gwelliannau cyson mewn perfformiad sefydliadol a helpu i gyflawni'r broses o reoli newid o ran cyfeiriad strategol a diwylliant sefydliadol[24].

98 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion wedi cael mwy o ymreolaeth dros eu cyllidebau ac mae'r annibyniaeth hon wedi helpu staff i alinio eu cyllidebau a'u blaenoriaethau ar gyfer gwella yn fwy effeithiol yn eu sefydliadau. Fodd bynnag, yn y dyfodol, mae angen i ysgolion fod yn hyderus y bydd llif cyllid yn

[23] Canllawiau Rheoli Perfformiad (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)

[24] Arfarniad o drefniadau rheoli perfformiad mewn ysgolion a chyfraniad y trefniadau at godi safonau (Estyn, 2006)

cefnogi eu gwaith yn y tymor canolig a'r tymor hir ac yn rhoi modd iddynt symud gwelliannau yn eu blaen, yn enwedig mewn gweithio partneriaeth. Mewn cydweithrediad â'u hawdurdod lleol, bydd angen i ysgolion allu cynllunio a dyrannu cyllidebau ar sail blaenoriaethau cytûn ar draws sectorau. Er y gallai fod angen o hyd am gytundebau lefel gwasanaeth rhwng ysgolion a'u hawdurdod lleol, mae angen mwy o eglurder ynghylch llif cyllid, gan gynnwys aliniad gwell rhwng y gyfundrefn gyllid 14-16 a'r gyfundrefn ar gyfer ôl-16. Bydd gan ysgolion fwy o angen am bobl â medrau cynllunio busnes datblygedig os ydynt am wneud y mwyaf o unrhyw gynnydd mewn hyblygrwydd ariannol a newidiadau i'r amgylchedd ariannol.

**99** Yn yr un modd, bydd angen mwy o arbenigedd amrywiol ar gyrff llywodraethol yn eu haelodaeth, sydd â'r egni a'r gallu i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael a datblygu ysgolion mewn ffyrdd sy'n bodloni anghenion disgyblion a'r gymuned. Er enghraifft, gallai goblygiadau gweithio aml-asiantaeth olygu bod angen i gyfansoddiad a maint y corff llywodraethol fod yn wahanol er mwyn rhedeg yr ysgol yn effeithiol ac yn effeithlon ar ran y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Ar hyn o bryd, mae llywodraethwyr yn tueddu i gynnig cymorth da ond heb ddigon o her. Nid yw eu gwasanaethau bob amser yn bodloni'r galw ar lywodraethu ysgol fodern. Mae lle i ailystyried rôl llywodraethwyr yn yr un modd â rôl cyfarwyddwyr anweithredol yn yr arfer orau yn y sector cyhoeddus.

**100** Mae'n bosibl gweld y gallai rôl yr arweinydd mwyaf pwysig yn y math hwn o sefydliad hyblyg sy'n amrywio'n eang fod yn debyg i rôl prif weithredwr mewn masnach neu ddiwydiant neu bennaeth coleg addysg bellach. Mae tebygrwydd hefyd yn rôl a chyfrifoldeb newydd yr uwch arweinydd mewn rhai awdurdodau lleol lle mae un cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob gwasanaeth sy'n berthnasol i les plant, gan gynnwys addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae ystod mor eang o wasanaethau yn golygu bod angen arweinyddiaeth strategol gref i reoli'n briodol ac integreiddio gwasanaethau yn llwyddiannus. Gallai'r model hwn fod yn berthnasol i ysgolion y byddai angen iddynt yn eu tro recriwtio arweinwyr dawnus, o gefndiroedd addysgu a chefndiroedd eraill, sydd â'r ddawn i oruchwylio tîm amrywiol a'r gallu i reoli ystod eang o weithgareddau mewn math newydd o sefydliad, gan ddarparu amrywiaeth o swyddogaethau. Byddai datblygu'r math hwn o uwch rôl yn galluogi staff mewn grwpiau arweinyddiaeth i ganolbwyntio eu medrau, eu harbenigedd a'u hegni yn fwy priodol ar rolau craidd arwain yr addysgu a'r dysgu tra bod rhywun arall yn ymgymryd â'r rolau llywodraethu strategol a chorfforaethol. Os yw newid am fod yn gynaliadwy, bydd yn cymryd egni, amser a gwaith tîm a dull mwy cysylltiol ar gyfer rheoli ar draws ffiniau sefydliadol traddodiadol.

## Ffyrdd ymlaen: Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Bydd angen i arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol yn y dyfodol:**

- ragori ar y ffiniau sefydliadol i ddeall a gweithio yn effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cyfrannu at bob agwedd ar ddysgu, iechyd a lles disgyblion;
- gwella addysgu a dysgu trwy gymell a dylanwadu ar ddisgyblion a staff mewn sefyllfa sy'n newid;
- defnyddio amser, adnoddau ac adeiladau pobl mewn ffyrdd mwy uchelgeisiol a chreadigol;
- darparu mwy o hyblygrwydd wrth rannu cyfrifoldeb ymhlith staff;
- rhoi blaenoriaeth i reoli perfformiad a datblygu'r holl bobl sy'n gweithio mewn ysgolion yn unol â blaenoriaethau sefydliadol; a
- datblygu a meithrin timau rheoli sy'n gweithio'n effeithiol ar draws sectorau.

# Casgliad

**101** Os yw ysgolion am fod yn addas at eu diben ar gyfer yr 21ain ganrif, yna rhaid eu trawsnewid. Rhaid i unrhyw newid fod yn iawn ar gyfer dysgwyr y gymuned honno: ni fydd yr un model ar gyfer ysgol y dyfodol yn addas ar gyfer anghenion pob dysgwr a phob ardal. Ledled Cymru, mae ysgolion mewn cyfnodau gwahanol yn y broses hon o drawsnewid, a bydd angen ystyried, trafod ac ymgynghori yn ofalus i wneud mwy o gynnydd. Bydd angen egni ac ymroddiad pawb sy'n gysylltiedig i fynd i'r afael â'r heriau a amlinellir yn y papur trafod hwn. Er bod llwyddiant y tu allan i reolaeth unrhyw sefydliad neu unigolyn penodol, mae gan bawb gyfrifoldeb i ymgysylltu yn y ddadl a'r broses hon.



**Mae Estyn yn croesawu sylwadau ac adborth ar y papur trafod hwn.**

Cysylltwch â ni:

Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
029 2044 6464